**Disgrifiad Swydd Cadeirydd Bwrdd Strategol yr Urdd**

Mae'r Llywodraethiant yr Urdd yn cynnwys y 6 bwrdd strategol canlynol:

1. Bwrdd Busnes
2. Bwrdd Adnoddau Dynol
3. Bwrdd Gwersylloedd
4. Bwrdd Rhyngwladol
5. Bwrdd y Celfyddydau
6. Bwrdd Chwaraeon a phrentisiaethau.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Strategol hefyd yn ymddiriedolwyr yr Urdd.
Cadeirir y Pwyllgor Archwilio a Risg gan gadeirydd annibynnol.

**Tymor y swydd**

Penodir y Cadeirydd am gyfnod o 3 blynedd. *
Disgwylir i'r Bwrdd cynnal o leiaf 2 gyfarfod a dim mwy na 4 cyfarfod mewn cyfnod o 12 mis.
*Mewn rhai amgylchiadau, rhoddir ystyriaeth i benodi Cadeirydd Interim am gyfnod o flwyddyn.

**Cefnogaeth**

Bydd y Cadeirydd yn derbyn arweiniad a chefnogaeth gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr(wyr) yr adran a chyd aelodau'r bwrdd.
Penodir Is-gadeirydd Bwrdd i gefnogi'r Cadeirydd ynghyd a swyddog gweinyddol i gefnogi trefniadau'r byrddau

**Prif bwrpas y rôl**

- Cefnogi arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr(wyr) yr adran ac aelodau'r Bwrdd strategol.
- Monitro'r nodau strategol yr adran, fel y cytunwyd gan y Bwrdd.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau clir ar strategaeth, rheolaeth ariannol a rheoli risg.
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynhwysedd cyfranogiad a phenderfyniadau clir.
- Datblygu'r Bwrdd a sicrhau bod aelodau'n cael eu cynnwys a'u cefnogi'n briodol.
- Cynrychioli'r sefydliad pan fo hynny'n briodol a chynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol
- Cytuno ar y drefn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ar benderfyniadau, argymhellion a thrafodaethau'r Bwrdd Strategol

**Pwrpas Cyffredinol y Bwrdd (gwelir cylch gorchwyl y byrddau unigol)**

- Adolygu (ar y cyd gyda staff yr Adran) nod strategol yr adran
- Cefnogi'r cyfarwyddwr(wyr) a staff yr adran i ddatblygu cynllun gweithredol gan gymeradwyo'r fersiwn terfynol
- Sicrhau atebolrwydd trwy graffu a monitro allbynnau a pherfformiad ariannol yr adran
- Adolygu'r rhaglen adnewyddu eiddo a chyfalaf yr adran os yn berthnasol
- Rhannu arweiniad a chefnogaeth mewn meysydd penodol
- Cyflwyno argymhellion i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd
- Cefnogi prosesau recriwtio'r Urdd i benodi (yn ôl yr angen) Cyfarwyddwr neu uwch swyddogion.